# SUT I DDYSGU CI I GANU!

Dydy Smwt ddim yn mynd i ennill Gwobr Bryn Terfel a welith e byth lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ond mae e'n sicr yn diddanu ein ffrindiau gyda'i udo/canu. Rhag ofn y byddech chi'n hoffi dysgu eich ci i ganu rydw i am ddweud sut y llwyddais i gyda Smwt, fy naeargi.



Pan oedd yn gi bach fe ddewison ni ganu iddo fe. Y prif reswm ar yr amser oedd ei fod yn mynd yn llawn cyffro ac yna byddai'n stopio, eistedd a throi ei ben o ochr i ochr yn giwt. Wedyn dechreuodd gyfarth arnom pan fyddem yn canu. Ac yna dechreuodd udo. Stopiodd am ychydig ac yna penderfynais i ei annog trwy udo fy hyn ar ddiwedd pob llinell. Byddai'n edrych yn hurt arnaf ac yna yn udo!

Rydw i'n sicr ei fod yn ceisio fy nysgu i i ganu. Byddwn yn gwneud synau uchel mewn llais digrif! Erbyn hyn mae Smwt yn canu 'Penblwydd Hapus' mewn partïon!

Felly, gan fy mod i wedi llwyddo, rydw i am roi cynghorion i chi!

1. Canwch chi! Dewiswch gân a'i chanu – nid o angenrheidrwydd yn dda – trwy'r amser. Canwch hi pan fyddwch yn coginio, glanhau, yn ystod hysbysebion teledu, mynd am dro, yn y car ... Rhowch ambell gyfarthiad ac udwch o dro i dro!
2. Os ydy eich ci yn cyfarth neu yn udo rhowch WOBR iddo yn y fan a'r lle. Canmolwch e am wneud mor dda. Peidiwch â'i gosbi am beidio â chanu.
3. Os ydych yn cael trafferth, peidiwch â rhoi'r ffidl yn y to. Daliwch ati. Canwch fwy a mwy. Udwch fwy a mwy. Trowch yn gi! (Ha!Ha! Dydw i ddim yn meddwl y bydd hynny yn gweithio!)

Pob lwc i chi beth bynnag! Rydw i'n gobeithio y llwyddwch chi. Mae e mor ddoniol. Os methwch chi, mae croeso i chi ddod draw i wrando ar Smwt.